# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION - CYFARFOD MEHEFIN

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 8fed o Fehefin 2021** |
| **AMSER** | **7 y.h. – Cyfarfod misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **Y Festri, Llithfaen** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Oherwydd genedigaeth ei blentyn nid oedd yn bosib i'r Cadeirydd fod yn bresennol heno. Cadeiriodd yr Is-gadeirydd sef Sianelen Pleming **(SP)**. Croesawodd pawb i'r cyfarfod.<br><br>Yn bresennol heno roedd John Owen **(JO),** Sara Williams **(SW),** Gwilym Williams **(GW)**, Griffith Jones **(GJ),** Lisbeth James **(LJ)**, William Jones **(WJ),** a'r Cyng. Aled Wyn Jones **(AWJ).** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ynyr Ellis **(YE)** Olwen Roberts **(OR),** Emlyn Hughes **(EH)**. |
| **3.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad |
| **4.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Ni dderbyniwyd unrhyw bryderon |
| **5.** | **COFNODION CYFARFOD MAI 2021** |
| | **a) CYFLWYNO A MABWYSIADU**<br>Gofynnodd SW I'r clerc gywiro cofnodion Mai I adlewyrch nad oedd hi yn y cyfarfod. Hefyd GJ pwynt 4 paragraff 2 Nid ger Capel Tabor oedd y bin ci diffygiol ond gwaelod Lôn y Plas.<br><br>Cynigiodd GW weddill y cofnodion yn gywir ac eiliodd GJ gyda phawb yn cytuno.<br><br>**b) MATERION YN CODI**<br><br>i. Adroddodd y Clerc bod materion goleuadau Lôn Plas, cais am wybodaeth parthed y toiledau cyhoeddus hefyd cais i ychwanegu twmpathau yn y gymuned yn nwylo Steffan Jones. Adroddodd AJ wybodaeth oedd wedi ei dderbyn parthed toiledau Trefor. Gofynnodd SP I'r clerc bwysleisio ar Swyddogion y Cyngor I ymateb mewn da bryd cyn cyfarfodydd. Cytunodd AJ I hefyd ofyn am ddiweddariad.<br><br>**ii. LLWYBR HEIBIO CAPEL ISAF**<br>Adroddodd SP bod y Llwybr erbyn hyn wedi eu clirio gan ANHE |

*Llofnodwyd gan...................................................................................* *Dyddiad.................................................*

| | |
|---|---|
| | **iii. BIN WEDI TORRI**<br>Adroddodd y clerc ei bod wedi gosod cwyn am y bin i'r Cwmni a'u bod wedi cytuno gyrru un yn ei lef gyda chytundeb bod y Cyngor yn gyrru'r un gyda diffyg yn ei ôl. Cytunodd GJ y buasai yn gwneud trefniadau i'w ail osod. Diolchodd pawb iddo. Gofynnod I'r clerc drefnu eu gwagio ymlaen llaw.<br><br>**iv. GÔR YRRU**<br>Adroddodd yr aelodau bryderon nad oedd hyfforddiant gwylio cyflymder wedi cael ei gynnal hyd yn hyn. Esboniodd y clerc bod problemau yn parhau cysylltu gyda'r swyddog sy'n trefnu hyfforddiant. Awgrymodd yr aelodau iddi gysylltu â'r Rhingyll. Y clerc i weithredu. |
| **6.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **RHIF CAIS**: C21/0450/43/DT - **LLEOLIAD:** Minallt, 4, Liverpool Terrace, Llithfaen, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6NN<br>**BWRIAD:** Estyniad Llawr Cyntaf Ar Gefn Yr Eiddo<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad. Y Clerc i adrodd i'r Cyngor Sir. |
| **7.** | **MAES PARCIO'R NANT** |
| | **a) ARWYDD**<br>Roedd y clerc wedi gyrru braslun o'r arwydd i'r aelodau i'w gytuno yn ystod y mis derbyniwyd sylwadau gan GW efallai bod y lluniau yn gam arweiniol. Cytunwyd bydd y geiriau Dim Gwersylla dros nos a No overnight parking yn ddigonol ar faint yn 600 x600, y clerc drefnu.<br><br>**b) STRATEGAETH GWERSYLLA**<br>Awgrymodd SP bod angen gyrru yn gofyn i'r Cyngor Sir oes ganddynt strategaeth i ddelio â'r broblem hefyd gofyn iddynt i drefnu adroddiad/ pwyllgor neu gyfarfod trafod i edrych ar y sefyllfa. Os mai'r consensus ar ôl hyn yw bod y broblem y tu allan i bwerau'r Cyngor ac angen deddfu i wella'r sefyllfa gofyn iddynt hefyd i bwyso ar y Llywodraeth am bolisïau newydd ar fyrder i'r broblem gynyddol sirol hon.<br>Y Clerc i anfon i Brif Weithredwr, Arweinydd ac Adran Gyfreithiol y Cyngor Sir hefyd gyrru yn gofyn am gefnogaeth Cynghorau Cymuned eraill.<br><br>**c) Y BROBLEM BRESENNOL**<br>Adroddodd SP nad oedd rhybudd swyddogol i'r gwersyllwr presennol byth wedi ei yrru oherwydd diffygion gan heddwas. Gobeithiodd y bydd yn cael ei yrru yn y bythefnos nesaf. |

*Llofnodwyd gan..................................................................................* *Dyddiad.................................................*

| | |
|---|---|
| | **d) COFRESTRU**<br>Adroddodd SP bod angen datganiad swyddogol gan aelodau hir dymor y Cyngor yn cadarnhau bod y Cyngor wedi derbyn cyfrifoldeb am y maes parcio ers sawl blwyddyn ac<br><br>wedi gwneud ceisiadau am grant ac yn y blaen. Cytunodd JO a GW yrru'r cadarnhad i'r cyfreithiwr. |
| **8.** | **Y GANOLFAN** |
| | Adroddodd SP nad oedd cyfarfod gyda Swyddog o'r Adran Gyfreithiol ac Adran Eiddo'r Cyngor Sir wedi ei gynnal hyd yn hyn. Gobeithiwyd cael arweiniad parthed y les wrth gysidro'r holl waith sydd ei angen wedi darganfod yr holl damp rwydd yn y Ganolfan. Cytunwyd bydd JO, YR ac SP yn mynychu'r cyfarfod. SP i drefnu. |
| **9.** | **LLWYBR CERDDED I LITHFAEN** |
| | Nid oedd AJ wedi llwyddo cael unrhyw wybodaeth hyd yn hyn ar gais i dderbyn Llwybr cerdded i Lithfaen. Esboniodd bod ad drefniant wedi digwydd yn y Cyngor Sir. Cytunwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf. |
| **10.** | **YSWIRIANT BHIB** |
| | Cynnigiodd GW gywirdeb y dogfennau yswiriant ac i barhau gyda'r yswirwyr presennol, eiliodd LJ a cytunodd pawb. |
| **11.** | **MATERION LLEOL** |
| | **WJ** - Coed yn dod i'r lon rhwng Pistyll a Penbrys heibio Castell - Y clerc i adrodd i'r Cyngor Sir. |
| **12.** | **CAIS Y CYNGOR SIR I'R CYNGOR CYMUNED SEFYDLU TREFNIANT PARTHED BINIAU BAW CI** |
| | Derbyniwyd cais i'r Cyngor Cymuned wneud trefniant cadarn sef yn fisol neu yn wythnosol i wagio'r biniau baw ci. Cytunwyd gofyn i'w gwagio yn fisol.<br><br>Adroddodd y Clerc bod cost gwagio un bin wedi codi gyda chwyddiant erbyn hyn i £3.65. |
| **13.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| | **a) PRISIAU ARWYDD I'R MAES PARCIO**<br>Gweler pwynt 7a)<br><br>**b) GLASDON - YMATEB I GŴYN AM FIN DIFFYGIOL**<br>Gweler pwynt 5iii) |

*Llofnodwyd gan..................................................................................... Dyddiad.................................................*

c) **CYNLLUNIO – ACHOS GORFODAETH – PISTYLL TERRACE**
Esboniodd y clerc bod cwyn swyddogol bellach wedi ei yrru a'i dderbyn gan y Cyngor Sir ond ni dderbyniwyd unrhyw ddiweddariad.

d) **YMGYNGHORIAD GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS (GDMC): RHEOLI CŴN**
Yr aelodau i'w lenwi'n uniongyrchol.

e) **NEWYDDLEN AHNE LLŶN**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau

f) **MICHAEL THOMAS PAB - CHWYDDIANT GWAGIO BINIAU CWN**
Gweler pwynt 12.

**14. CYLLID**

a) **CYFRIFON**
Cynigwyd yn gywir gan GW gyda LJ yn eilio a phawb yn cytuno.

b) **TRAFODION Y GYFRIFLEN BANC**

**CYFRIF CYFREDOL - 1 MAI – 31 MAI 2021**

| **BALANS CYCHWYN £9,248.78** | | **TALIADAU** |
|---|---|---|
| Cyflog Clerc | 201100 | **160.00** |
| Treuliau Clerc | 201201 | **61.50** |
| D. P Osborn | 201203 | **240.00** |
| Parry Davies Clwyd-Jones a Lloyd | 201205 | **300.00** |
| | **BALANS CAU** | **8,487.28** |

**CYFRIF CADW - 7 MAI – 6ED O FEHEFIN**

| **BALANS CYCHWYN - £2,660.73** | |
|---|---|
| | **DERBYNIADAU** |
| | 0.07 |
| **Balans** | **£2,660.80** |

c) **TALIADAU I'W CYMERADWYO**

**YSWIRIANT BHIB – 450.09**
**CYFLOG CLERC – 160.00**
**TREULIAU CLERC 17.00**

**Ail ysgrifennwyd siec I Llio Gethin am £20.00**

*Llofnodwyd gan.................................................................................. Dyddiad................................................*

| 15. | **TREFNIADAU A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF** |
|---|---|
| | 13 o Orffenaf yn y Festri |

*Llofnodwyd gan..................................................................................... Dyddiad.................................................*

*Clerc Cygor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*